



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**WG43879**

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cynllun gweithredu cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn

Ymgynghoriad ar y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i  
atal cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 8 Awst 2022

Camau i'w cymryd: 17 Hydref 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd /  
This document is also available in English

**OGL** © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am safbwyntiau ar y camau arfaethedig y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r cynigion yn datblygu'r gwaith sydd wedi'i wneud gyda'r Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin a sefydlwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ym mis Ebrill 2020. Mae'n ddarn o waith trawslywodraethol sy'n canolbwyntio nid yn unig ar fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso pobl hŷn, ond ar greu'r amgylchiadau lle mae cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn llai tebygol o ddigwydd.

Hefyd, mae'r Cynllun Gweithredu yn deillio o Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, 'Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio'<sup>1</sup> a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn<sup>2</sup> yn nodi y dylai pobl hŷn allu byw mewn urddas ac yn ddiogel heb ddioddef cam-fanteisio a chamdriniaeth gorfforol neu feddyliol.

Fel llywodraeth, rydym yn glir na fydd camdriniaeth nac esgeulustod o unrhyw fath yn erbyn pobl hŷn yn cael ei oddef. Mae hyn yn cynnwys sgamiau ariannol a cham-drin ac esgeulustod corfforol a meddyliol. Nid yw oedran yn lleihau hawl unigolyn i fyw gydag urddas a pharch.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu cyfres o fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith ledled y Llywodraeth i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o gamdriniaeth, ac i'w hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'n datblygu llawer o waith da sydd wedi'i wneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Diogelu ac Eirioli  
Yr Is-adran Galluogi Pobl  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [safeguardingandadvocacy@llyw.cymru](mailto:safeguardingandadvocacy@llyw.cymru)

This document is also available in English: [hyperddolen](#)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: [hyperddolen](#)

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata amdanoch a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i gael 'dileu' eich data (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Swydd Gaer SK9 5AF

Rhif Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

[Cefndir](#)

[Amcanion](#)

[Hunan-esgeulustod](#)

[Pobl Hŷn a Cham-drin Domestig](#)

[Galluedd Meddyliol](#)

- Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
- Dementia

[Cartrefi Gofal](#)

[Gofal Cartref](#)

[Gofal Di-dâl](#)

[Corff Llais y Dinesydd](#)

[Rhannu Gwybodaeth](#)

[Cam-drin Ariannol](#)

[Eiriolaeth ar gyfer Oedolion](#)

[Hawliau Pobl Hŷn](#)

[Unigrwydd, Ynysigrwydd Cymdeithasol a Phobl Hŷn](#)

[Mynediad Digidol](#)

[Prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl](#)

[Fferyllfeydd Cymunedol](#)

[Data](#)

[Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

[Hyfforddiant - Grŵp Datblygu Safonau Diogelu](#)

[Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad](#)

## Cefndir

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu rhai o'r mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith ledled y Llywodraeth i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o gamdriniaeth, ac i'w hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'n datblygu llawer o waith da sydd wedi'i wneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>3</sup>, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<sup>4</sup>, a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.<sup>5</sup>

Mae'n cydnabod bod y themâu cyffredinol rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn gofyn am gamau gweithredu ledled y Llywodraeth a bod angen ymateb amlasiantaethol effeithiol a rhagweithiol er mwyn mabwysiadu dull diogelu ataliol. Mae'n ceisio troi strategaeth yn gamau gweithredu.

Mae'n bwysig cofio nad yw pobl hŷn yn grŵp unffurf ac y bydd profiad pob unigolyn yn wahanol. Mae Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio<sup>6</sup> yn cydnabod effaith niweidiol rhagfarn ar sail oedran ac yn ceisio herio stereoteipiau negyddol o bobl hŷn fel "baich ar gymdeithas" y gellid eu defnyddio i ddilysu camdriniaeth. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a byddant yn sylfaen i'w gweithredu. Drwy ymwrthod â rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, ein nod yw creu cymdeithas fwy cyfartal sy'n galluogi pobl o bob oed i wireddu eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

Er bod angen osgoi stereoteipio pobl hŷn, mae profiad yn dangos y gallai rhai pobl hŷn deimlo'n llai abl i gael mynediad at wasanaethau; efallai eu bod yn llai ymwybodol na phobl iau o'r gwasanaethau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt; neu efallai eu bod yn credu bod gwasanaethau wedi'u cynllunio ar gyfer pobl iau yn unig, neu bobl â phlant.

Mae dileu rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran yn hanfodol i Gymru sydd o Blaid Pobl Hŷn. Fel sy'n wir am fathau eraill o wahaniaethu, mae rhagfarn ar sail oedran wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn normau ac arferion diwylliannol ein cymdeithas, gan gynnwys yn yr iaith a ddefnyddiwn. Rydym yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn i ganolbwyntio'n benodol ar ragfarn ar sail oedran, a byddwn yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o achosion ac effaith rhagfarn o'r fath er mwyn cyflawni ein nod o sicrhau Cymru fwy cyfartal.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio nodi'r posibilrwydd o effeithiau rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran trwy ein proses asesu polisi. Mae holl bolisiau Llywodraeth Cymru yn destun Asesiad Effaith Integredig llawn, sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar bob aelod o gymdeithas.

Gall pobl hŷn fod mewn mwy o berygl o ddioddef rhai mathau o gamdriniaeth oherwydd amgylchiadau cymdeithasol, ariannol neu addysgol - mae iechyd yn fwy tebygol o fod yn ffactor ar gyfer pobl hŷn o'i gymharu â phobl iau. Er enghraifft, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cam-drin am flynyddoedd lawer gan aelod o'r

teulu, a'u bod yn teimlo cywilydd neu embaras gan eu bod wedi dioddef camdriniaeth am flynyddoedd heb gŵyn.

Mae'n gallu bod yn fwy anodd i rai pobl hŷn dderbyn cymorth – efallai y byddant angen mwy o amser, mwy o sicrwydd a mwy o hyder yn yr hyn a allai ddigwydd a'r gwasanaethau sydd ar gael, cyn eu bod yn rhoi gwybod am gamdriniaeth ac yn derbyn cymorth i symud ymlaen.

Hefyd, mae'r Cynllun wedi'i lywio gan brofiadau pobl hŷn yng Nghymru drwy gydol y pandemig ac mae wedi defnyddio dau adroddiad arwyddocaol a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn - 'Gadael Neb ar Ôl'<sup>7</sup> a 'Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru'<sup>8</sup>.

## **Amcanion**

Mae tair thema gyffredinol i'r cynllun hwn:

1. Mae pobl hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol a chydag urddas ac maent yn gallu cael gafael ar gymorth perthnasol gan wasanaethau diogelu os ydynt mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.
2. Mae pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol yn gallu cael gafael ar gymorth perthnasol gan wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol pan fydd angen.
3. Mae pobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

## **Hunan-esgeulustod**

Mae hunan-esgeulustod wedi codi mewn tua 40% (blwyddyn galendr 2019) o adolygiadau ymarfer oedolion yng Nghymru a gwblhawyd yn dilyn marwolaeth oedolyn ag anghenion gofal a chymorth.

Rydym yn bwriadu datblygu canllawiau ymarfer newydd ar hunan-esgeulustod i gynorthwyo ymarfer mewn lleoliadau perthnasol. Bydd hyn yn cynorthwyo ymarferwyr i adnabod arwyddion hunan-esgeulustod a gweithredu arnynt yn well, ac atal unrhyw niwed i'r unigolyn ac i eraill a allai godi o beidio ag ymdrin â'r mater yn sensitif.

Bydd y ddogfen hon yn diffinio hunan-esgeulustod at ddibenion diogelu ymarferwyr, gan osod hunan-esgeulustod o fewn fframwaith statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hefyd, bydd yn disgrifio'r cysylltiad rhwng hunan-esgeulustod a'r diffiniadau o esgeulustod yn y Ddeddf. Y nod yw darparu rhagor o wybodaeth i ymarferwyr am y berthynas rhwng eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf 2014 a'r materion yn ymwneud â chydsyniad a galluedd yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005, fel y'i diwygiwyd, a Deddf Iechyd Meddwl 1983<sup>9</sup>, wrth ymdrin â materion hunan-esgeulustod.



Mae adolygiadau o ymarfer oedolion yn dangos cymhlethdod ymarfer gydag oedolion sy'n hunan-esgeuluso. Mae'r ffaith fod byrddau diogelu oedolion wedi teimlo'r angen i ymchwilio'n rheolaidd i ganlyniadau achosion o oedolion sy'n hunan-esgeuluso, a datblygu gweithdrefnau mewn ymateb i hynny, yn awgrymu'n gryf bod staff y sector cyhoeddus angen gweithdrefnau cadarn i'w cynorthwyo wrth geisio gweithio gyda phobl sy'n hunan-esgeuluso.

## **Pobl Hŷn a Cham-drin Domestig.**

Bu swyddogion yn cydweithio â'r cyn-Gomisiynydd Pobl Hŷn i ddatblygu "Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru<sup>10</sup>," a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae'r ddogfen hon yn darparu cyngor ymarferol i staff a rheolwyr ar adnabod a deall y cyd-destun ar gyfer cam-drin pobl hŷn. Hefyd, mae'r canllawiau yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rai o'r materion a'r risgiau penodol sy'n wynebu pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Uned Atal Trais Cymru i gynnal ymchwil i'r dulliau gweithredu sydd wedi llwyddo o bosibl i atal VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol), ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2021 (Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?<sup>11</sup>) Un o gasgliadau'r adroddiad yw: 'Mae angen rhagor o ymchwil hefyd ar frys i atal mathau penodol o VAWDASV gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth, cam-drin ar sail anrhydedd, cam-fanteisio a masnachu mewn pobl, a sut mae rhaglenni atal yn gorgyffwrdd ag anghenion unigolion a chymunedau sy'n LHDT+, BAME, ac mewn grwpiau oedran hŷn'.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn presennol wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cyn-Ddirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol erbyn hyn) i godi rhai o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn sy'n ceisio ffoi rhag cam-drin domestig, ac mae'r pandemig wedi gwneud hyn yn fwy dybryd fyth. Mae'r canllawiau Comisiynu Statudol presennol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru yn datgan: 'Bydd y canllawiau'n sicrhau bod y broses gomisiynu'n ystyried yr anghenion, y problemau a'r rhwystrau penodol a allai fod gan bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac sydd efallai wedi'u gwthio i'r cyrion neu eu heithrio, gan gynnwys menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anabl a phobl sy'n LGBT+'.

Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i adolygu'r ddogfen 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru<sup>12</sup>'.

Byddwn yn parhau i fonitro Grantiau VAWDASV sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarthau a sefydliadau'r trydydd sector bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru<sup>13</sup>. Gofynnir iddynt ddarparu tystiolaeth o sut y maent wedi ystyried a diwallu anghenion grwpiau arbenigol gan gynnwys pobl hŷn.

Byddwn yn datblygu'r ymgyrch 'Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre'<sup>14</sup> gan ganolbwyntio ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle, yn ogystal â'r cartref. Byddwn yn parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n arbenigo mewn cefnogi pobl hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â materion y mae pobl hŷn yn fwy tebygol o'u hwynebu na grwpiau oedran eraill.

Gellir rhoi cymorth i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, naill ai gyda'r cyflawnwr yn parhau i fyw yno neu hebdo. Mae gwasanaethau ar gael i wneud eiddo'n fwy diogel er mwyn darparu mwy o amddiffyniad (a elwir yn gwella diogelwch) ar gyfer eiddo unigolyn. Hefyd, mae modd darparu cymorth lle bo'r angen sy'n gysylltiedig â thai yng nghartref yr unigolyn. Cyflwynodd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016<sup>15</sup> ddull newydd o ymdrin â chontractau ar y cyd sy'n galluogi deiliaid contract i gael eu hychwanegu at gontractau meddiannaeth, neu eu tynnu oddi arnynt, heb fod angen terfynu'r contract i bawb. Pan gaiff ei weithredu, bydd y dull newydd yn helpu i osgoi'r risg o ddigartrefedd ac yn cynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig trwy sicrhau bod modd gwneud trefniadau i droi'r cyflawnwr allan.

## **Galluedd Meddyliol**

### **Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

Er bod y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn bolisi lle mae'r broses o wneud penderfyniadau yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i'r diwygiadau sy'n cael eu cyflwyno. Rydym wedi croesawu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019<sup>16</sup> a'r pwerau i wneud rheoliadau y mae'n eu rhoi i Weinidogion Cymru. Cydnabyddir yn gyffredinol fod nifer o heriau'n gysylltiedig â'r system bresennol o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), yn enwedig yn sgil y cynnydd diweddar yn nifer y ceisiadau DoLS. Yng Nghymru, cafwyd 631 o geisiadau am awdurdodiadau DoLS yn 2013/14. Yn 2018/19, derbyniwyd 10,311 o geisiadau gan awdurdodau lleol a derbyniwyd 5,070 o geisiadau gan fyrddau iechyd. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau sydd yn yr arfaeth. Bydd cyflwyno'r diogeliadau newydd yn gwella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid a'u teuluoedd trwy greu fframwaith cyfreithiol symlach newydd sy'n hygyrch ac yn glir ac yn cydymffurfio ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid) ac Erthygl 8 (yr hawl i barch ar gyfer bywyd preifat a theuluol) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol<sup>17</sup>. Yn benodol, bydd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn darparu system fwy effeithiol sy'n rhoi'r unigolyn sy'n cael ei amddifadu o ryddid wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Hefyd, bydd yn gwella'r broses o integreiddio'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid â gwaith asesu, adolygu a chynllunio gofal, cymorth a thriniaeth bob dydd, gan leihau'r baich ar y rhai sy'n gweinyddu'r Diogeliadau a'r unigolion sy'n cael eu diogelu ganddynt.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n holl bartneriaid perthnasol gan gynnwys Llywodraeth y DU, iechyd, gofal, addysg, a chyfiawnder er mwyn cynorthwyo gydag ymgynghori a chyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid diwygiedig yng Nghymru.

## **Dementia**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cynllun gweithredu dementia: cryfhau'r ddarpariaeth mewn ymateb i COVID-19'<sup>18</sup> ym mis Medi 2021. Bwriad y ddogfen hon yw ategu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia<sup>19</sup> a helpu i'w roi ar waith yn dilyn profiadau pobl yn ystod y pandemig.

Un nodwedd sy'n berthnasol iawn i'r cynllun gweithredu hwn yw'r ffaith bod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn nodi 'Amddiffyn hawliau / cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'; cymorth ar gyfer cartrefi gofal a chymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl fel un o'r themâu trawsbynciol cyffredinol. Mae'r ddogfen yn nodi y byddwn ni (Llywodraeth Cymru) yn gwneud y canlynol:

- Darparu crynodeb o'r canlyniadau a adroddwyd drwy brosiectau a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig (ICF), sy'n cael eu paru â meysydd o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia. Bydd hyn yn cynnwys datblygiadau sy'n cefnogi'r dull gweithredu 'timau o amgylch yr unigolyn', gan alluogi teuluoedd a gofalwyr i gael gofal seibiant sy'n gallu diwallu anghenion y gofalwr yn ogystal ag anghenion y sawl sy'n byw gyda dementia.
- Parhau i weithio gyda'r sector gofal cartref i helpu i gefnogi'r dull seiliedig ar hawliau o ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd, a galluogi mynediad at y cymorth adsefydlu sydd ei angen arnynt mewn ymateb i COVID-19. Bydd hyn yn cynnwys gwaith parhaus i gefnogi llesiant preswylwyr cartrefi gofal, a nodwyd drwy waith y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal.<sup>20</sup>

## Cartrefi Gofal

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi dweud y 'gellid bod wedi atal llawer o'r marwolaethau mewn cartrefi gofal pe bai gwell dealltwriaeth o'r risgiau roedd preswylwyr cartrefi gofal yn eu hwynebu ac o'r camau oedd angen eu cymryd i sicrhau bod y mesurau gwarchod a'r cymorth roedd eu hangen arnynt ar gael. Felly mae cynllun gweithredu ar gyfer cartrefi gofal yn hanfodol ac mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad cynllun i'w groesawu. Mae angen sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu o'r hyn a ddigwyddodd a bod y camau cywir yn cael eu cymryd, ar yr adeg gywir, i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ddiogel, eu bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau iechyd a'r cymorth a all fod eu hangen arnynt a'u bod yn gallu gweithredu eu hawliau, gan fod y rhain i gyd yn hanfodol i sicrhau eu bod yn mwynhau'r ansawdd bywyd gorau posibl. Rhaid i brofiadau, lleisiau a barn preswylwyr cartrefi gofal fod yn rhan o hyn.' (Gadael Neb Ar ôl – Gweithredu ar gyfer Adferiad o Blaid Pobl Hŷn, Comisiynydd Pobl Hŷn, Awst 2020).

Roedd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal a gyhoeddwyd gyntaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2020 yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector dros gyfnod y gaeaf ar sail y gwersi a nodwyd o'r don gyntaf o COVID. Cyhoeddwyd diweddariad terfynol ym mis Mawrth 2021 (<https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-cartrefi-gofal-diweddariad-terfynol-html>). Rydym wedi rhoi arian grant i Age Cymru er mwyn parhau i ymgysylltu â phreswylwyr cartrefi gofal a chael gwell dealltwriaeth o'u profiad yn ystod y pandemig er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion da.

Mae cwestau i farwolaethau wyth o bobl yr ystyriwyd eu hachosion fel rhan o Operation Jasmine<sup>21</sup> wedi amlygu effaith arweinyddiaeth a rheolaeth wael ar ddiwylliant sefydliad a sut mae hyn yn ei dro yn effeithio ar ddiogelwch a llesiant pobl sy'n derbyn gwasanaeth. Mae diwylliant negyddol mewn gwasanaethau cartrefi gofal yn creu amgylchedd sy'n gallu arwain at esgeuluso, cam-drin ac amharu ar hawliau dynol pobl.

Yn dilyn canlyniad y cwestau, gweithiodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i gynnal digwyddiad myfyrio a dysgu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn sicrhau nad yw'r gwersi a nodwyd gan Operation Jasmine yn cael eu hanghofio. Mae gweminar wedi'i chynhyrchu i'w rhannu â'r holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd yn ehangach. Bydd AGC a GCC yn datblygu rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheolaeth a diwylliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae AGC wedi newid ei dull o gofnodi pryderon a godir am ddiogelu. Ar ôl sefydlu'r rhaglen, bydd modd rhannu gwybodaeth. Mae Cynllun Strategol 2020-2025 Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymrwymo y bydd yn 'Cyhoeddi graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref; a datblygu ein dull o gydweithio a chynnal arolygiadau ymhellach er mwyn cefnogi gwelliannau'.

Yn unol â'r adolygiad o wasanaethau i bobl hŷn gan y tîm arolygu awdurdodau lleol, fe aeth tîm arolygu gwasanaethau oedolion a phlant AGC ati i gwblhau adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Cafodd yr adolygiad ei ysgogi a'i lywio gan:

- Gynllun Gweithredu Cymru ar Ddementia 2018 i 2022 Llywodraeth Cymru, a oedd yn ailadrodd bod gan bobl yr hawl i fyw yn dda mewn cartref gofal;
- Argymhelliad Gofal Dementia Siaradwyr Cymraeg – Cymdeithas Alzheimer's Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2018 y dylai Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydnabod bod diffyg gofal yn y Gymraeg ar gyfer pobl sydd ei angen yn arwain at ofal gwael a allai gael effaith niweidiol ar bobl;
- yr adroddiad "Defnyddio Meddyginiaeth Gwrthseicotig mewn Cartrefi Gofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018<sup>22</sup>" a nododd bryderon sylweddol ynglŷn â'r defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal;
- Adolygiad AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o'r cymorth gofal iechyd a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru yn 2018.

Dyma'r canfyddiadau:

- Yn gyffredinol, roedd pobl a'u teuluoedd yn gadarnhaol am y gofal a ddarparwyd yn y rhan fwyaf o wasanaethau.
- Roedd angen gwella mynediad at gymorth ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

- Roedd angen gwella hyfforddiant staff ar ddementia, yn ogystal â'r ystyriaeth o'r amgylchedd y mae pobl yn byw ynddo oherwydd natur gymhleth eu hanghenion.
- Roedd angen gwella'r maes rheoli meddyginiaethau, yn enwedig mewn perthynas â meddyginiaeth wrthseicotig. Bydd secondio fferyllydd i AGC yn ystod 2020-21 yn gyfle i ddatblygu perthynas â chydweithwyr fferyllol er mwyn helpu i wella gwasanaethau.
- Roedd darparwyr yn croesawu technoleg newydd i wella gwasanaethau.
- Mae angen gwneud gwaith i wella'r trefniadau ar gyfer rhyddhau pobl sy'n byw gyda dementia o ysbytai. Dangosodd pandemig COVID-19 bwysigrwydd y pwyntiau olaf hyn: roedd pobl yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â'u hanwyliaid drwy ddefnyddio technoleg. Roedd ein galwadau gyda darparwyr yn ystod y cyfnod hwn yn amlygu angen clir i wella prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae Cynllun Strategol AGC ar gyfer 2020-25<sup>23</sup> yn cynnwys ymrwymiad y bydd yn 'defnyddio canfyddiadau ein harolygiadau a'n hadolygiadau er mwyn gwella gwasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol' ac, wrth wneud hynny, yn 'parhau i ddatblygu ein dull o sicrhau gwelliant a gorfodi er mwyn sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel'. Hefyd, bydd yn 'cyhoeddi graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref'.

## **Gofal Cartref**

Roedd Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn 'Gadael Neb Ar ôl' yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

*'Roedd ofnau a phryderon y byddai Covid-19 yn cyrraedd cartrefi pobl sy'n cael gofal yn y cartref yn golygu bod rhai pobl hŷn a'u teuluoedd yn teimlo bod yn rhaid iddynt roi'r gorau i'w pecynnau cymorth a oedd yn golygu eu bod wedyn yn fwy a mwy dibynnol ar deulu a ffrindiau am yr help hwn, gyda chynnydd o 196,000 yn nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru yn ystod y pandemig. Yn achos rhai gofalwyr di-dâl hŷn, a'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n byw â dementia, mae'r cyfuniad o gau cyfleusterau seibiant fel canolfannau dydd, ynghyd â chyfyngiadau symud, wedi golygu bod llawer wedi cyrraedd pen eu tennyn.*

*O gofio'r rôl hanfodol sydd gan ofal yn y cartref a seibiant i gynnal iechyd, llesiant ac annibyniaeth pobl hŷn, a'r effaith ar iechyd a llesiant gofalwyr di-dâl sy'n darparu gofal ychwanegol, dylai awdurdodau lleol adfer cymorth gofal cymdeithasol a seibiant ar frys. Mewn achosion lle gall anghenion pobl fod wedi newid, rhaid cynnal asesiadau newydd ar gyfer pecynnau gofal, gan gynnwys asesiadau a chymorth i ofalwyr.'*

Mae heriau sylweddol yn bodoli yn y sector gofal cymdeithasol, ac mewn gwasanaethau ail-alluogi a gofal cartref yn benodol. Mae hyn yn ymwneud â lefel a chymhlethdod anghenion a digonolrwydd staff i ddarparu gofal.

Roedd heriau o safbwynt recriwtio a chadw staff yn bodoli ym maes gofal cartref cyn y pandemig, ac mae COVID-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa hon. Mae her bersonol sylweddol i staff yn cael effaith, ac mae'r ffaith fod y sectorau lletygarwch a manwerthu wedi ailgor yn cynnig opsiynau cyflogaeth amgen deniadol.

Rydym yn ariannu gwaith recriwtio cenedlaethol sydd wedi ei dargedu, ac mae awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn mentrau amrywiol i gynyddu capasiti. Cyflwynodd Gweinidogion Cymru'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ym mis Ebrill. Mae gwaith i wella telerau ac amodau yn fwy cyffredinol drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn parhau.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r gweithgor Rhoi Meddyginiaeth ym maes Gofal Cartref (MADC), sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ac sy'n ceisio sefydlu arferion a hyfforddiant cenedlaethol mewn perthynas â gofal cartref a rhoi meddyginiaeth.

## **Gofal Di-dâl**

Mae miloedd o ofalwyr di-dâl o bob oed ledled Cymru yn cynorthwyo pobl ag anghenion cymhleth i fyw'n annibynnol ac yn dda yn eu cartrefi eu hunain gan leihau'r pwysau ar system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Mae llawer o ofalwyr hŷn yn byw gyda'u cyflyrau iechyd eu hunain ac er bod gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu yn brofiad gwerth chweil i lawer, gall gofalwyr di-dâl anwybyddu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl<sup>24</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn datgan bod yn rhaid i bob gofalwr di-dâl gael cyfle i gymryd seibiannau o'i rôl ofalu i'w alluogi i gynnal ei iechyd a'i lesiant ei hun. Gall cymorth ymarferol ar gyfer gofalwyr di-dâl atal teuluoedd rhag cyrraedd sefyllfa argyfwng. Hefyd, gall cymorth ariannol leihau straen a helpu gofalwyr di-dâl sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cynorthwyo gofalwyr i fyw eu bywyd yn ogystal â gofalu.

Ym mis Mai 2022, buddsoddwyd £29 miliwn gennym i ddarparu taliad untro gwerth £500 i 57,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru a oedd yn derbyn Lwfans Gofalwr ar 31 Mawrth 2022. Hefyd, rydym wedi dyrannu £4.5 miliwn dros dair blynedd i barhau â'n Cronfa Gymorth i Ofalwyr. Sefydlwyd y gronfa, a weinyddir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, yn 2020 ac mae wedi helpu dros 10,000 o ofalwyr ar incwm isel i brynu eitemau hanfodol sylfaenol sydd eu hangen arnynt. Hefyd, mae wedi helpu i nodi nifer sylweddol o ofalwyr nad oeddent yn hysbys cynt i wasanaethau – mewn rhai ardaloedd roedd 70% o'r ymgeiswyr yn ofalwyr nad oeddent yn hysbys cynt. Nid yw cymhwysra ar gyfer y grantiau yn gysylltiedig â hawl i fudd-daliadau. Hefyd, bydd gofalwyr di-dâl o bob oed yng Nghymru yn elwa ar gronfa gwerth £9m i sefydlu cynllun gwyliau byr cenedlaethol newydd. Bydd y buddsoddiad tair blynedd yn cynyddu cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant o'u rôl ofalu, a'r nod yw

trawsnewid y ffordd y mae gofalwyr di-dâl yn gallu cael seibiant a gwyliau byr yng Nghymru.

Roedd y dystiolaeth a adolygwyd gennym wrth lunio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ategu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn dangos effaith andwyol dyletswyddau gofal ar iechyd a llesiant rhai gofalwyr, a'r ffaith bod gofalwyr hŷn mewn mwy o berygl na gofalwyr iau. Mae opsiynau seibiant a gwyliau byr hyblyg yn gallu bod yn elfen hanfodol o'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr di-dâl i reoli eu rôl ofalu a gallant leihau cyfrifoldebau gofal dros dro.

## Corff Llais y Dinesydd

Er mwyn lleihau'r risg o gamdriniaeth neu esgeulustod mewn unrhyw leoliad, mae'n hanfodol bwysig gwranddo ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau, a'u grymuso i ddweud wrth rywun os ydynt yn credu eu bod nhw neu bobl eraill mewn perygl.

Mae amcanion 'Cymru Iachach'<sup>25</sup> yn adlewyrchu'r nod o sicrhau cysylltiad agosach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd. Mae'n amlinellu'r nod o sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd dull system gyfan o ymdrin â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwranddo ar safbwynt pawb trwy ymgysylltu'n barhaus.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, bydd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020<sup>26</sup> yn disodli Cyngorau Iechyd Cymuned (sy'n cynrychioli llais y claf yn y gwasanaeth iechyd yn unig ar hyn o bryd) â chorff cenedlaethol newydd - Corff Llais y Dinesydd - a fydd yn arfer swyddogaethau ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Nodau'r corff newydd yw:

- cryfhau llais y dinesydd yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod gan ddinasyddion system effeithiol o sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed;
- sicrhau bod unigolion yn cael cyngor a chynhorthwy wrth gyflwyno cwyn mewn perthynas â'u gofal;
- defnyddio profiadau'r defnyddiwr gwasanaethau i ysgogi gwelliant.

Bydd y sefydliad newydd hwn yn cael ei sefydlu fel corff cenedlaethol, ond bydd yn cael ei strwythuro fel bod modd iddo gyflawni ei swyddogaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y corff newydd, cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gydweithredu, gyda'r bwriad o gefnogi ei gilydd i hybu ymwybyddiaeth o'r Corff. Mae dyletswydd arnynt hefyd i wneud trefniadau i gynorthwyo'r Corff i geisio barn y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi cod ymarfer ar geisiadau gan Gorff Llais y Dinesydd i fynd i safleoedd iechyd a gofal cymdeithasol i ofyn am farn unigolion gyda'r nod o'i gyflwyno yn ystod haf 2023. Bydd canllawiau statudol hefyd y bydd rhaid i gyrff y

GIG ac awdurdodau lleol eu hystyried wrth ymdrin â sylwadau a gyflwynir iddynt gan y Corff.

## **Rhannu Gwybodaeth**

Mae rhannu gwybodaeth yn dda yn ganolog i arferion diogelu da. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data'r DU. Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill (Atodlen 1 paragraff 18 o Ddeddf Diogelu Data 2018<sup>27</sup>). Un thema allweddol sy'n deillio o Adolygiadau o Ymarfer Oedolion yw'r angen i wella dulliau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth amlasiantaethol. Os nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd amserol ac effeithiol, mae'n bosibl na fydd penderfyniadau yn ymwneud â sut i ymateb yn seiliedig ar wybodaeth, gan arwain o bosibl at arferion diogelu gwael sy'n gadael pobl yn agored i gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Byddwn yn llunio canllaw anstatudol i atgoffa ymarferwyr sy'n gweithio mewn asiantaethau o'u cyfrifoldebau i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu oedolion sydd mewn perygl a'u cynorthwyo i ddeall yr amodau pan fydd angen rhannu gwybodaeth o bosibl.

Bydd y cyngor hwn ar gyfer pob ymarferydd a rheolwr rheng flaen sy'n gweithio gydag oedolion sydd mewn perygl, gofalwyr a theuluoedd ac sy'n gorfod gwneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth bersonol fesul achos, lle mae yna bryderon diogelu.

## **Cam-drin Ariannol**

Gall Cam-drin Ariannol gael effaith ddinistriol ar ddiodefwyr a'u teuluoedd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys cam-drin ariannol yn ei diffiniad o gamdriniaeth, gan nodi'n glir bod y canlynol yn gyfystyr â chamdriniaeth: cael arian neu eiddo wedi'i ddwyn; cael eu twyllo; cael eu rhoi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo, neu gael arian neu eiddo wedi'i gamddefnyddio.

Mae'n amlwg bod y pandemig wedi cynnig cyfleoedd newydd i sgamwyr, ac mae tystiolaeth yn dangos bod pobl hŷn sydd ag anghenion gofal a chymorth ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed, yn ogystal â phobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Yn ogystal, roedd y cyfyngiadau symud wedi cael effaith negyddol ar fathau eraill o gamdriniaeth, megis cam-drin ariannol o fewn teuluoedd.

Gall sgamiau gael effaith ofnadwy ar ddiodefwyr, a gall pobl hŷn fod mewn perygl penodol o ddiodef y math hwn o gamdriniaeth – mae tystiolaeth gan y Safonau Masnach Cenedlaethol yn dangos bod 85% o ddiodefwyr sgamiau ar stepen y drws dros 65 oed. Yn aml, mae'r effaith ar iechyd a llesiant yn waeth o lawer na'r golled



ariannol. Mae pobl yn colli hyder ac yn teimlo'n fwy ynysig ac ofnus. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ddirywiad mewn iechyd meddwl a chorfforol. Roedd Safonau Masnach Cenedlaethol, fel aelodau o Grŵp Gweithredu'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar Atal Cam-drin, wedi cynhyrchu deunyddiau amrywiol yn gwella ymwybyddiaeth o sgamiau ac yn rhoi cyngor i bobl ar sut i amddiffyn eu hunain. Hefyd, roedd Llywodraeth Cymru, trwy'r llinell gymorth 'Byw Heb Ofn'<sup>28</sup>, yn cynnig cyngor a chymorth i bobl sydd mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig o bob math.

Ym mis Mai 2022, cyflwynwyd ymgyrch gyfathrebu gennym yn canolbwyntio ar gam-drin ariannol, gan gynnwys sgamiau, yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Ein bwriad hefyd oedd darparu gwybodaeth am gam-drin ariannol o fewn teuluoedd, arwyddion i chwilio amdanynt a ble i droi am gymorth.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i lunio canllawiau ar sut i nodi ac osgoi cam-drin ariannol, ymhlith pobl hŷn yn benodol, ac ar ffynonellau cyngor a chymorth.

## **Eiriolaeth ar gyfer Oedolion**

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer ar Wasanaethau Eirioli<sup>29</sup> o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Cod yn nodi'r gofynion i awdurdodau lleol sicrhau bod mynediad at wasanaethau a chymorth eirioli ar gael i alluogi unigolion i ymgysylltu a chyfranogi pan fydd awdurdodau lleol yn arfer dyletswyddau statudol mewn perthynas â hwy. Mae'r Cod yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth o fathau o eiriolaeth, statudol ac anstatudol, ffurfiol ac anffurfiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r prosiect HOPE (Helpu Eraill i Gymryd Rhan ac Ymgysylltu) sy'n ceisio hyrwyddo mynediad at gymorth ymyrraeth gynnar ar lefel gymunedol trwy fodolau amrywiol o eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn a gofalgwyr ledled Cymru. Bydd y prosiect HOPE yn gwneud y canlynol:

1. Sefydlu, hwyluso a chefnogi fforymau cydgynhyrchu eiriolaeth pobl hŷn ym mhob rhanbarth
2. Dynodi Llysgenhadon Eiriolaeth drwy'r fforymau
3. Recriwtio, hyfforddi, defnyddio a chefnogi gwirfoddolwyr sy'n gymheiriaid a gwirfoddolwyr hŷn
4. Sefydlu rhaglen hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sy'n galluogi eiriolwyr ledled Cymru i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn barhaus.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid llywodraeth leol i fwrw ymlaen â'r gwaith a wnaed yn y cynadleddau Diogelu ac Eirioli ar gyfer Oedolion a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2019. Y nod fydd darparu gwasanaethau eirioli gan gymheiriaid, grwpiau neu ddinasyddion yn y gymuned sy'n gynaliadwy, sicrhau bod mwy o bobl hŷn yn cymryd rhan yn eu cymunedau a bod llai o bobl hŷn yn cael eu hynysu'n gymdeithasol, gwella mynediad cynnar at wasanaethau statudol sy'n osgoi'r angen

am ymyriadau argyfwng ar gyfer pobl hŷn a gofalwyr, a chreu dull strategol o hyrwyddo eiriolaeth yng Nghymru.

Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil i ddarpariaeth a hygyrchedd gwasanaethau eirioli i bobl hŷn mewn cartrefi gofal, nid yn unig pan fyddant yn symud yno gyntaf ond drwy gydol eu cyfnod yno. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gofal gyfeirio at wasanaethau eirioli, ac mae canllawiau statudol Arolygiaeth Gofal Cymru yn nodi: 'Bydd darparwyr gwasanaethau'n sicrhau bod trefniadau ar waith sy'n galluogi unigolion i gael gafael ar wasanaethau eirioli perthnasol neu grwpiau hunan-eiriolaeth (os ydynt yn dymuno hynny) a chymorth gyda'u hanghenion cyfathrebu er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau am eu bywyd eu hunain'. Fodd bynnag, byddai astudio sut mae hyn wedi gweithio yn ymarferol a sut mae wedi effeithio ar fywydau preswylwyr yn ganllaw defnyddiol ar gyfer gwaith polisi yn y dyfodol. Mae effaith anghymesur COVID-19 wedi amlygu'r anghydraddoldebau sy'n wynebu rhai rhannau o gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl sy'n byw gyda dementia a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal a mynediad hwylus at wasanaethau eirioli priodol ar gyfer pobl hŷn wedi bod yn faterion pwysig yn ystod y pandemig ac maent yn elfen bwysig yn y cynllun adfer ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych Tua'r Dyfodol<sup>30</sup>.

## Hawliau Pobl Hŷn

Mae Hawliau Dynol yn hawliau cyffredinol a chydabyddedig i bawb fel y nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998<sup>31</sup>. Daeth y Ddeddf i rym yn y DU yn y flwyddyn 2000. Mae hawliau dynol yn wahanol i'r agenda llesiant ond mae cyfatebiaeth glos rhyngddynt ac maent yn feincnod clir ynghylch natur annerbyniol triniaeth waradwyddus a diraddiol i unrhyw un ohonom. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i drin pobl yn deg ac yn gyfartal gydag urddas, parch ac ymreolaeth.

Mae oedran yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>32</sup> sy'n golygu na ellir trin pobl yn wahanol oherwydd eu hoedran. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Ei nod yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach. Mae'r ddyletswydd yn sylfaen i wneud penderfyniadau cadarn. Mae'n annog cyrff cyhoeddus i ddeall sut y bydd eu polisiau a'u gwasanaethau yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig penodol.

Gall codi ymwybyddiaeth o hawliau hefyd rymuso pobl i gymryd rheolaeth a chydabod pan fydd eu hawliau dan fygythiad. Gall diffinio hawliau dynol mewn termau syml rymuso pobl hŷn i herio a newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu yng Nghymru, ond mae codi ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith gweithwyr proffesiynol yr un mor bwysig.

Rydym yn ymgymryd â chyfres o gamau gweithredu i 'wireddu hawliau i bobl hŷn.' Rydym wedi cynnal ymgyrch genedlaethol i wneud pobl hŷn a gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>33</sup>. Hefyd, rydym wedi gweithio gyda phobl hŷn a phartneriaid allweddol i gydgyhyrchu canllawiau ymarferol sy'n dangos sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gallu datblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'n dangos bod newidiadau syml i'r ffordd rydym yn gweithio yn gallu diogelu hawliau dynol unigolyn a chael effaith fawr ar ei lesiant. Mae'r grŵp wedi llunio fersiwn o'r canllawiau hyn ar gyfer pobl hŷn hefyd. Bwriedir defnyddio'r ddyddogfen hyn gyda'i gilydd i arwain sgysiau ac ysbrydoli dealltwriaeth gyffredin o effaith drawsnewidiol dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Yn 2021-22, cafodd pob awdurdod lleol gyllid gennym i hyrwyddo gwaith tuag at greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn a chryfhau grwpiau a fforymau pobl hŷn. Gall y strwythurau lleol hyn fod yn effeithiol wrth ledaenu gwybodaeth i bobl hŷn sydd mewn perygl neu sy'n cael eu cam-drin.

## **Unigrwydd, Ynysigrwydd Cymdeithasol a Phobl Hŷn**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi clywed fwyfwy am effaith andwyol unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ar ein hiechyd a'n llesiant corfforol a meddyliol.

Mae ein strategaeth 'Cysylltu Cymunedau'<sup>34</sup> a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 yn cydnabod bod unrhyw un, o unrhyw oedran, yn gallu wynebu unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, ond bod hyn yn fwy tebygol ymhlith pobl hŷn.

Yn ystod y pandemig, mae llawer o bobl wedi profi'r teimladau hyn am y tro cyntaf; tra bod y rhai a oedd yn unig cyn y pandemig wedi teimlo hyd yn oed yn fwy ynysig. Rydym wedi cymryd nifer o gamau i geisio cefnogi pobl i gadw mewn cysylltiad a manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt o bosibl, megis: ariannu gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn Age Cymru, 'Ffrind mewn Angen/Friend in Need'<sup>35</sup>, gwneud newidiadau i'n rheoliadau fel bod pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn gallu ffurfio "aelwyd estynedig", a threialu menter gwirfoddoli mewn cartrefi gofal i hwyluso ymweliadau teuluol.

Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth roi'r strategaeth ar waith. Rydym wedi gweithio ledled y Llywodraeth i adolygu ei 80 o ymrwymadau a mwy er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir y newidiadau sydd wedi digwydd mewn cymdeithas a deall y math o gymorth sy'n cael ei ddarparu i'r rhai mwyaf agored i niwed a sut y gellir cryfhau hyn.

Mae sefydlu grŵp cynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid allanol pwysig, megis Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Age Cymru, wedi bod yn hanfodol i'n helpu i ddeall yn well effaith y pandemig ar unigrwydd ac ynysigrwydd ymysg pobl hŷn.

Wrth i ni barhau i roi'r strategaeth ar waith byddwn yn ystyried materion allweddol a nodwyd gan y grŵp, megis: allgáu digidol, goresgyn rhwystrau i ail-ymgysylltu, y mathau o gymorth parhaus sydd ei angen a chynnal cymorth yn y gymuned. Bydd presgripsiynu cymdeithasol yn gwneud cyfraniad allweddol at sicrhau bod cymorth ataliol ar gael yn lleol a'i fod yn ymateb i anghenion unigol.

Hefyd, byddwn yn ystyried sut i ymgorffori arferion sy'n pontio'r cenedlaethau; gan ddysgu o adborth cyfranogwyr yn ein huwchgynhadledd genedlaethol (rithwir) a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021, a helpu i sicrhau parch a dealltwriaeth rhwng cenedlaethau a chyfrannu at Gymru sydd o blaid pobl hŷn.

## **Mynediad Digidol**

Rydym yn gweithio i sicrhau cymdeithas ac economi sy'n ddoethach ac wedi'u cysylltu'n well trwy sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad at dechnolegau digidol, a'u bod yn gwybod sut i'w defnyddio. Dylai amcan cynwysoldeb y Strategaeth Ddigidol i Gymru<sup>36</sup> roi sylw dyledus i anghenion pobl hŷn a gwella'r gallu i sicrhau mynediad at gymorth diogelu.

Mae cynhwysiant digidol yn fater cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb allweddol ac mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn elwa ar gyflymder y newid technolegol sy'n digwydd mewn cymdeithas.

Rydym yn gwybod bod cyfran fawr o bobl ledled Cymru nad ydynt yn hyderus yn ddigidol – efallai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd yn bersonol, nad oes ganddynt y sgiliau digidol sylfaenol i gael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth hanfodol ac efallai nad oes ganddynt ddyfais a/neu gysylltedd. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20<sup>37</sup> yn dangos bod mwy o bobl hŷn wedi'u hallgáu'n ddigidol nag unrhyw grŵp demograffig arall, sef 19% o'r rhai 50 oed a throsodd; 19% o'r rhai 65-74 oed a 48% o'r rhai 75 oed a throsodd.

Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo pawb i fagu'r cymhelliant, yr hyder a'r sgiliau er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a dewis sut maent yn cymryd rhan yn ein byd cynyddol ddigidol a gwneud y gorau ohono. Fel y nodir yn y Strategaeth Ddigidol i Gymru (Mawrth 2021), byddwn yn parhau i gymhwyso egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer pobl na allant gymryd rhan yn y byd digidol, neu sy'n dewis peidio â gwneud, er mwyn sicrhau bod dulliau amgen o gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru - llwybrau mynediad amgen a fydd cystal â'r rhai sy'n cael eu cynnig ar-lein.

Drwy sicrhau bod dinasyddion Cymru yn hyderus yn ddigidol, yn enwedig ein poblogaeth hŷn, gallwn gyfrannu at nodau triphlyg ein system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, sef gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gwella ansawdd y gofal a ddarparwn yn parhaus a sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd gennym.

Drwy'r rhaglen sydd wedi'i chaffael, 'Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant'<sup>38</sup>, rydym yn gweithio gyda sefydliadau o bob sector sy'n gallu

helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ddarparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff rheng flaen, gwirfoddolwyr a sefydliadau er mwyn ymgysylltu â sgiliau digidol dinasyddion a staff rheng flaen a'u datblygu. Dechreuodd y rhaglen ym mis Gorffennaf 2019 a disgwylir iddi bara tan 30 Mehefin 2022 gydag opsiwn i'w hymestyn am dair blynedd arall.

Mae angen cynyddol i unigolion, boed yn bobl ifanc neu'n oedolion, nid yn unig i ddeall eu hawliau ar-lein - ond hefyd i allu defnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel ac yn hyderus. Rydym yn cydnabod bod 'Cadw'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn hyderus ar-lein' bellach yn un o'r pump sgil digidol sylfaenol sy'n cael eu mabwysiadu'n eang ledled y DU. Mae hyfforddiant gan Cymunedau Digidol Cymru yn cynnwys awgrymiadau ar sut i gadw'n ddiogel ar-lein, gan gynnwys diogelu preifatrwydd, sy'n cael ei drosglwyddo i ddinasyddion gan staff rheng flaen a gwirfoddolwyr.

Ymgyrch Cyfeillion Digidol: Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn datblygu ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o gynhwysiant digidol a gwella sgiliau digidol sylfaenol pobl hŷn drwy amlygu'r camau syml y gall unigolion eu cymryd i gynorthwyo person sydd wedi'i allgáu'n ddigidol i fynd ar-lein (gan ddod yn Gyfaill Digidol i'r unigolyn). Fe aeth Cymunedau Digidol Cymru ati i gaffael a phenodi asiantaeth i ddatblygu cynllun cyfryngau, gydag adnoddau, sy'n cynnwys hysbysebion wedi'u targedu ar sianeli teledu digidol ITV Hub, Made in Cardiff a North Wales TV, yn ogystal ag ar Facebook. Bydd hyn yn cynnwys astudiaethau achos o'r rhai sydd â phrofiad byw o allgáu digidol a'r effaith y mae'r defnydd o dechnoleg wedi'i chael arnynt ers hynny. Y prif alwad i weithredu yw i unigolion helpu rhywun y maent yn ei adnabod i ddefnyddio technoleg yn effeithiol. Bydd yr adnoddau i gefnogi pobl ar gael ar wefan Cymunedau Digidol Cymru i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad atynt.

## **Prosiect Adolygu Diogelu Unedig Sengl**

Yn 2018 cwblhawyd adroddiad academiaidd gan Dr Amanda Robinson<sup>39</sup> ac adroddiad ymarferydd gan Liane James ar Adolygiadau Lladdiadau Domestig (DHR), Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APR), Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR) ac Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl (MHHR) yng Nghymru. Nododd y ddau adroddiad fod y broses adolygu yn anhrefnus ac yn gymhleth, a bod rhai digwyddiadau'n esgor ar nifer o adolygiadau. Yn dibynnu ar gategori'r adolygiad, gallant gael eu cynnal naill ai gan asiantaethau wedi'u datganoli neu asiantaethau heb eu datganoli.

Mae'n bosibl y bydd y ffordd hon o weithio yn ei gwneud yn ofynnol i deuluoedd mewn profedigaeth gymryd rhan mewn ymchwiliadau lluosog i fywyd a marwolaeth eu hanwyliaid, gan arwain o bosibl at drawma ac erledigaeth o'r newydd ar gyfer y teuluoedd. Nododd yr adroddiad academiaidd a'r adroddiad ymarferydd fod angen newid y sefyllfa hon er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol ar y teuluoedd, gwneud defnydd gwell o adnoddau a galluogi mecanwaith cyflymach i gynnal adolygiadau a rhoi'r hyn a ddysgir ar waith ar sail Cymru gyfan. Hefyd, nododd yr adroddiadau nad oedd yr adolygiadau wedi'u cynnal mewn modd cydgyssylltiedig, ac nad oedd cronfa

ddata ganolog i storio pob un ohonynt, felly roedd yn anodd rhoi'r hyn a ddysgir ar waith yn ymarferol.

Ar sail y canfyddiadau, roedd yr adroddiadau cyngori bod angen gwneud sawl newid. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) sy'n fframwaith rhyngasiantaethol yn cwmpasu pob elfen a fyddai fel arfer yn gofyn am adolygiadau lluosog. Bydd yr adolygiad hwn yn parhau i sicrhau bod y teulu dan sylw wrth wraidd y broses adolygu, ond bydd yn sicrhau bod y teulu yn cael ei ddiogelu rhag niwed pellach. Awgrymwyd hefyd y dylai'r adolygiadau hyn a phob DHR, CPR, APR ac MHHR blaenorol gael eu storio mewn un ystorfa ganolog. O ganlyniad, mae Ystorfa Diogelu Cymru wedi'i chreu i storio pob adolygiad mewn un lleoliad. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ymarferwyr gael mynediad at yr adolygiadau ac yn hwyluso dysgu ohonynt. Mae'r Ystorfa yn system unigryw sy'n cynhyrchu archwiliadau thematig o safbwynt gwyddorau cymdeithasol a chyfrifiadureg. Yna mae modd lledaenu'r wybodaeth allweddol hon ledled Cymru er mwyn helpu i amddiffyn dioddefwyr posibl ac atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Byddwn yn darparu proses Adolygu Diogelu Unedig Sengl sy'n cael ei defnyddio gan asiantaethau dirprwyedig ac asiantaethau heb eu dirprwyo i sicrhau dull Cymru gyfan o gynnal adolygiadau. Bydd hyn yn dileu'r angen i gynnal adolygiadau lluosog, gan leddfu rhywfaint o'r pwysau ar asiantaethau a theuluoedd yr ymadawedig.

Byddwn yn sefydlu Ystorfa Diogelu Cymru a fydd yn storio'r holl adolygiadau diogelu mewn un gronfa ddata ganolog. Bydd hyn yn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio data o'r adolygiadau o hyn ymlaen, a chreu dadansoddiad thematig o'r adolygiadau, yn ogystal â lledaenu'r hyn a ddysgir ledled Cymru er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu nodi o ddigwyddiadau yn y gorffennol i helpu i atal achosion tebyg yn y dyfodol.

## **Fferyllfeydd Cymunedol**

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn cynrychioli dros 700 o berchnogion fferyllfeydd yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â'r GIG. Ei phrif amcan yw sicrhau'r cyfleoedd, y gydnabyddiaeth ariannol a'r telerau gorau posibl ar gyfer gwasanaethau'r GIG. Dyma'r corff sy'n gyfrifol am gysylltu â'r Adran Iechyd ac am negodi telerau cytundebau i ddarparu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol y GIG.

Byddwn yn cefnogi Fferyllfeydd Cymunedol trwy ddarparu deunyddiau a hyfforddiant ar adnabod arwyddion o gamdriniaeth a rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol lle bo hynny'n briodol.

## **Data**

Roedd Adroddiad Blynyddol 2019-20 Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru<sup>40</sup> yn argymhell y canlynol: 'Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Canllawiau Technegol y Fframwaith Perfformiad Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin pobl hŷn, trwy gasglu data sydd wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran.'

Daeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru<sup>41</sup> i rym yn 2020. Mae gwaith i ddadgyfuno'r datganiad diogelu ymhellach ar sail oedran yn un o ofnion y casgliadau newydd. Mae'r datganiad ar ddiogelu oedolion sydd wedi'i drosglwyddo o'r fframwaith blaenorol yn cael ei gasglu ar sail bandiau oedran llawer mwy cyfyng sy'n caniatáu dadansoddiad manylach o gamdriniaeth ac esgeulustod yn ôl oedran.

Yn anffodus, mae'r pandemig COVID-19 wedi golygu bod y gwaith arfaethedig wedi'i ohirio o leiaf ychydig fisoedd. Mae'r gwaith wedi ailddechrau gan fod Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn gallu neilltuo'r amser sydd ei angen i gwblhau'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o ddatblygu'r cyfrifiad newydd o oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae ymrwymiad wedi'i wneud i gynhyrchu'r data hwn.

Grŵp Datblygu'r Cyfrifiad Oedolion a fydd yn bennaf gyfrifol am ddatblygu'r cyfrifiad newydd. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y grŵp hwn gyda chynrychiolwyr o'r byd academiaidd, darparwyr ac asiantaethau partner. Diben y grŵp yw sicrhau bod y casgliadau'n ddilys ac yn bwrpasol, yn adlewyrchu'r arferion presennol ac yn addas i'r diben.

## **Gofal Cymdeithasol Cymru**

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru:

- yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer rheoleiddio a datblygu'r gweithlu, gan gyflawni swyddogaethau craidd a statudol
- yn parhau i ymestyn y gofrestr gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau newydd fel gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, wrth barhau i ddiwygio a gwella'r fframwaith rheoleiddio i bawb.

## **Hyfforddiant - Grŵp Datblygu Safonau Diogelu**

Ym mis Ebrill 2021, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, sefydlodd Gofal Cymdeithasol Cymru Grŵp Datblygu Safonau Diogelu gyda'r nod o greu cyfres o safonau diogelu sy'n sylfaen i weithgarwch hyfforddi, dysgu a datblygu yn ymwneud â phlant ac oedolion yng Nghymru; cyfres o safonau aml-asiantaeth ar gyfer pob lefel o ddiogelu, sy'n gysylltiedig â chymwyseddau a'r wybodaeth sydd ei hangen; ffordd o fapio pynciau arbenigol neu hyfforddiant diogelu "arall" y tu allan i'r modiwlau craidd yn unol â'r set o safonau a'r gallu i ddefnyddio'r rhain ar draws asiantaethau, rhanbarthau ac anghenion gwahanol yn y sectorau sy'n wynebu'r cyhoedd. Bydd hyn yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth yn briodol ac yn pwysleisio pwysigrwydd llunio adroddiadau diogelu.

Yr allbynnau yw datblygu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol sy'n cynnwys rhaglen 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' (sy'n adeiladu ar y Fframwaith Hyfforddi Rhanbarthol cymeradwy a Fframwaith Hyfforddi'r GIG) a chydlynu sgwrs genedlaethol i wella ac

ategu Hyfforddiant Diogelu amlasiantaethol. Caiff y safonau eu cymeradwyo gan gadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac maent yn destun ymgynghoriad.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

<b>Cynllun gweithredu cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn</b>		
<b>1. A ydych yn cytuno bod y tri amcan cyffredinol yn briodol? Os na, beth ddylen nhw fod?</b>		
<b>Cytuno'n gryf</b> <input type="checkbox"/> <b>Tueddu i Gytuno</b> <input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno'n gryf</b> <input type="checkbox"/> <b>Tueddu i Anghytuno</b> <input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b> <input type="checkbox"/>
Rhowch sylwadau:		
<b>2. A yw'r materion penodol sy'n wynebu pobl hŷn mewn perthynas â cham-drin ac esgeulustod posibl yn cael eu cynnwys yn briodol a'u cyflwyno mewn ffordd glir a defnyddiol? Os na, beth arall sydd angen ei gynnwys (a sut)?</b>		
<b>Ydynt</b> <input type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b> <input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b> <input type="checkbox"/>



Sylwadau:

**3. A yw'r dulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso wedi'u nodi mewn ffordd glir a defnyddiol?**

Cytuno'n gryf

Tueddu i Gytuno

Anghytuno'n gryf

Tueddu i Anghytuno

Ddim yn siŵr

Rhowch sylwadau:

**4. A ydych yn cytuno bod y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â'r prif ffactorau risg sy'n wynebu pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso? Os na, beth arall sydd angen ei gynnwys?**

Cytuno'n gryf

Tueddu i Gytuno

Anghytuno'n gryf

Tueddu i Anghytuno

Ddim yn siŵr

Sylwadau:

- 5. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Sylwadau:

- 6. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Sylwadau:

**Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddiennw, ticiwch yma:**



- 
- [1 Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio](#)
  - [2 Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn](#)
  - [3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)
  - [4 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)
  - [5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#)
  - [6 Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio](#)
  - [7 Gadael Neb ar ôl: Ein haddewid - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
  - [8 Angen rhagor o wasanaethau cymorth wedi'u teilwra i sicrhau bod pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yn gallu cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru](#)
  - [9 Deddf Iechyd Meddwl 1983](#)
  - [10 Canllawiau ar Ddiogelu Pobl Hŷn yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)
  - [11 Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?](#)
  - [12 Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu pobl hŷn yng Nghymru](#)
  - [13 Canllawiau Statudol ar Gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru](#)
  - [14 Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre](#)
  - [15 Deddf Rhentu Cartrefi \(Cymru\) 2016](#)
  - [16 Deddf Galluedd Meddyliol \(Diwygio\) 2019](#)
  - [17 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol](#)
  - [18 Cynllun gweithredu dementia: cryfhau'r ddarpariaeth mewn ymateb i COVID-19](#)
  - [19 Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia](#)
  - [20 Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal](#)
  - [21 Operation Jasmine](#)
  - [22 Defnyddio Meddyginiaeth Gwrthseicotig mewn Cartrefi Gofal Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018](#)
  - [23 Cynllun Strategol AGC ar gyfer 2020-25](#)
  - [24 Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl](#)
  - [25 'Cymru Iachach'](#)
  - [26 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020](#)
  - [27 Deddf Diogelu Data 2018](#)
  - [28 Byw Heb Ofn](#)
  - [29 Cod Ymarfer ar Wasanaethau Eirioli](#)
  - [30 Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r Dyfodol](#)
  - [31 Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
  - [32 Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
  - [33 Hawliau Gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)
  - [34 Cysylltu cymunedau: strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chreu cysylltiadau cymdeithasol cryfach](#)
  - [35 Ffrind mewn Angen/Friend in Need](#)
  - [36 Y Strategaeth Ddigidol i Gymru](#)
  - [37 Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)
  - [38 Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles](#)
  - [39 Gwneud cysylltiadau: dadansoddiad amlddisgyblaethol o ddynladdiad domestig, dynladdiad iechyd meddwl ac adolygiadau ymarfer oedolion](#)
  - [40 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol 2019-20](#)
  - [41 Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol: Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad 2020-21](#)